Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Coleg Nyrsio Brenhinol
Tŷ Maeth
King George V Drive East
Caerdydd
CF14 4XZ

Helen Whyley, RN, MA
Cyfarwyddwr Gweithredol, RCN Cymru

Ffôn 02920 680703
E-bost helen.whyley@rcn.org.uk

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech
Stryd Pendyris
Caerdydd CF11 6BH

Dydd Mawrth 28 Ionawr 2025

Annwyl Derek Walker

Ddydd Iau 16 Ionawr, cyhoeddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) adroddiad dirdynnol yn datgelu effaith ddinistriol gofal mewn coridorau ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn ysbytai yng Nghymru a ledled y DU. Ymatebodd miloedd o aelodau'r RCN i arolwg byr o fewn dyddiau'n unig, ac mae'r adroddiad yn cyflwyno eu geiriau yn grai a heb eu golygu:

> "Nid oeddwn yn gallu cynorthwyo claf a oedd angen gofal personol yn ddiogel a chydag urddas gan nad oedd llenni na sgriniau ar gael. Digwyddodd yn ystod shifft nos a bu'n rhaid symud y claf i'r coridor i ffwrdd o gleifion eraill. Mae'r holl staff yn gofidio nad dyma'r ffordd o drin pobl o gwbl."

Yn dilyn hyn, ddydd Mawrth 28 Ionawr, cyhoeddodd RCN Cymru adroddiad polisi yn nodi ein hargymhellion ar gyfer camau gweithredu i ddod â gofal mewn coridorau i ben yng Nghymru. Maent yn cynnwys dosbarthu triniaeth mewn cadair sy'n para dros 24 awr yn Ddigwyddiad Byth, yn ogystal ag adolygiad cenedlaethol o gapasiti GIG Cymru ac yna buddsoddiad wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

Mae Gofal mewn Coridorau—sef yr arfer o drin cleifion mewn cynteddau, cadeiriau,

Yn parhau....

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

neu leoliadau amhriodol eraill—wedi dod yn realiti dyddiol i lawer o weithwyr gofal iechyd rheng flaen. Mae cyfleusterau gorlawn, adnoddau annigonol, a galw uchel o ran cleifion wedi gorfodi nyrsys a staff eraill i ddarparu gofal mewn amgylcheddau sy'n peryglu diogelwch, urddas ac ansawdd. Mae hyn bellach wedi cyrraedd pwynt argyfwng.

Mae bywydau a diogelwch cleifion mewn perygl nawr, ond cenedlaethau'r dyfodol fydd yn teimlo canlyniadau llymaf diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru, a phob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG, i roi terfyn ar ofal coridorau. Mae ei normaleiddio yn niweidio nid yn unig cleifion, ond hefyd ein gwasanaeth iechyd, trwy erydu safon y gofal yr ydym yn ei dderbyn. Mae staff nyrsio yn gweithio'n ddiflino ddydd a nos i ddarparu'r gofal o'r safon uchaf i gleifion. Mae gofal coridor yn rhwystro eu gallu i wneud hynny'n ddifrifol, ac ni all unrhyw faint o sgil nac ymdrech ei wneud yn oddefadwy iddynt hwy na'u cleifion.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, yn ogystal ag at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn eu hannog i weithredu ar unwaith i roi terfyn ar ofal coridorau.

Byddwn yn ddiolchgar am eich cefnogaeth a hoffwn gwrdd â chi i drafod hyn ymhellach.

Yn ddiffuant,



HELEN WHYLEY, RN, MA
CYFARWYDDWR GWEITHREDOL, RCN CYMRU

Coleg Nyrsio Brenhinol y Deyrnas Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom
20 Cavendish Square
Lundain/London W1G 0RN
Ffôn/Telephone
+44 (0) 20 7409 3333
RCN Direct 0345 772 6100
rcn.org.uk

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Swyddfa Gogledd Cymru/ Royal College of Nursing Wales
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/
Brenin George V/
King George V Drive East
Caerdydd/Cardiff
CF14 4XZ

Llywydd/President
Bejoy Sebastian

Ysgrifennydd Cyffredinol a Phrif Weithredwr/ General Secretary & Chief Executive
Yr Athro/Professor Nicola Ranger

Cyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru/ Executive Director of RCN Wales
Helen Whyley

Noddwr/Patron
Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III/HM King Charles III

Mae'r RCN yn cynrychioli nrysys a nyrsio, gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in practice and shapes health policies

INVESTORS IN PEOPLE
Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestr Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.

The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.